# Astudiaeth Achos Sbarcynni Rheoli Boeleri

**Ar ôl wythnos o ddefnyddio Sbarcynni, roedd Ysgol Gynradd Whiteways, Sheffield wedi arbed 35% o'i chostau nwy blynyddol. Gwnaed hyn heb unrhyw gost i'r ysgol, dim ond drwy newid amseroedd ei boeler.**


> *"Gallaf argymell [Sbarcynni] yn fawr i unrhyw ysgol arall."*
>
> \- Jennie Nixon, Pennaeth yr Ysgol

## Dadansoddiad

Dechreuodd y dadansoddiad o ddefnydd nwy Ysgol Gynradd Whiteways drwy edrych ar y dadansoddiad o ddefnydd nwy fesul math o ddiwrnod/amser.


I Whiteways dangosodd fod 59% o'r defnydd nwy yn digwydd pan roedd yr ysgol ar gau - y tu allan i oriau'r ysgol yn ystod yr wythnos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol.

**Dadansoddiad fesul diwrnod/amser - nwy**




| Time Of Day | kWh / year | £ /year | CO2 kg /year | Library Books /year | Percent |
|---|---|---|---|---|---|
| Holiday | 68,795 | 2,064 | 14,034 | 413 | 16% |
| Weekend | 34,213 | 1,026 | 6,979 | 205 | 8% |
| School Day Open | 176,776 | 5,303 | 36,062 | 1,061 | 41% |
| School Day Closed | 154,192 | 4,626 | 31,455 | 925 | 36% |
| Total | 433,976 | 13,019 | 88,531 | 2,604 | |

**Defnydd nwy fesul diwrnod yr wythnos**




## Defnydd dros y penwythnos

Wrth edrych ar y dadansoddiad yn fanylach, gwelwyd bod y gwres wedi'i gadw ymlaen ar gam ar ddydd Sul.

Byddai newid gosodiadau'r boeler i ddiffodd y gwres ar ddydd Sul yn arbed tua 8% o'i defnydd ynni neu £1,023 y flwyddyn.

Sbarcynni
Energy Sparks


Dysgwch fwy am sut y gallwch leihau costau ynni eich ysgol drwy fynd i https://cy.energysparks.uk neu e-bostio hello@energysparks.uk.

# Astudiaeth Achos Sbarcynni Rhybuddion

## Defnydd yn ystod y gwyliau

Ar draws ein gwefan, caiff defnydd ynni yn ystod gwyliau ysgol ei amlygu'n goch. Mae'r siart hon yn dangos yn blaen y cafodd y gwres ei gadw ymlaen yn ystod gwyliau ysgol pan nad oedd neb yn yr ysgol, gan gynnwys drwy gydol gwyliau'r haf.

Roedd defnydd yn ystod y gwyliau yn cwmpasu 16% o ddefnydd blynyddol Whiteways neu £2,064 - gellid arbed hyn drwy ddiffodd y gwres a'r dŵr twym.





Defnydd nwy (fesul wythnos)

> *Mae gweithio gyda Sbarcynni wedi bod yn brofiad gwerth chweil. Nid yn unig y mae'r ysgol wedi arbed arian, ond mae'r plant wedi dod yn fwy ymwybodol o'r ffyrdd y gallant helpu i leihau defnydd ynni.*
>
> \- Jennie Nixon, Pennaeth yr Ysgol

## Defnydd y tu allan i oriau'r ysgol

Yn olaf, mae dadansoddiadau Sbarcynni yn cynnwys defnydd yn ystod y gaeaf, wedi'i gyfuno ag amser y dydd.

Defnydd o nwy yn ystod y dydd (yn ystod y tymor gwresogi)



I Whiteways, mae'n dangos bod y gwres wedi bod yn dod ymlaen cyn canol nos a bod yr ysgol yn cael ei gwresogi dros nos. Drwy newid gosodiadau'r boeler i ddod ymlaen yn hwyrach, er enghraifft 6.00am, yna gallai'r ysgol leihau'r defnydd nwy yn yr adrannau a amlygwyd yn binc ar y siart.

> *Mae'r wefan yn adnodd gwych i oedolion a phlant gyda gweithgareddau a data sy'n galluogi plant i gymhwyso eu gwybodaeth a sgiliau mathemategol a gwyddonol.*
>
> \- Jennie Nixon, Pennaeth yr Ysgol

Sbarcynni
Energy Sparks